CYNGOR GWYNEDD



# Cyfle unigryw i redeg Caffi Storiel Bangor

STORIEL





CYNGOR GWYNEDD



# Unique opportunity to run Storiel's cafe in Bangor

STORIEL








Ydych chi'n barod i gyfuno bwyd blasus gyda diwylliant a chelfyddydau mewn lleoliad eiconig? Dyma'ch cyfle i redeg caffi a chyfleusterau arlwyo yn Storiel – amgueddfa ac oriel gelf sy'n ganolbwynt diwylliannol i Fangor a Gwynedd.




Are you ready to combine delicious food with culture and arts in an iconic location? This is your chance to run a café and catering facilities at Storiel – a museum and art gallery that is a cultural hub for Bangor and Gwynedd.




Fel darparwr llwyddiannus, byddwch yn gweithio law yn llaw â Chyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor i wireddu eu huchelgeisiau ar gyfer twf a llwyddiant y ganolfan unigryw hon.

Byddwch yn cynnig gwasanaeth o safon uchel bob tro, gyda’r cyfle i greu profiad bwyta o naws arbennig yng nghanol amgueddfa ac oriel sy’n llawn hanes, creadigrwydd ac ysbryd cymunedol.




As a successful provider, you will work hand in hand with Gwynedd Council and Bangor University to realise their ambitions for the growth and success of this unique centre.

You will always offer a high quality service, with the opportunity to create a special dining experience in the heart of a museum and gallery steeped in history, creativity and community spirit.

🍽️ **Beth rydym yn chwilio amdano:**

- Arlwywr sy’n gallu cynnig byrbrydau ysgafn blasus
- Brechdanau, paninis, bagels, seigiau, cawl ac ati
- Cacennau cartref, te a choffi o’r radd flaenaf, diodydd ysgafn
- Pwyslais ar flas Cymreig a chynnyrch lleol lle bo modd
- Gwasanaeth croesawgar, cyfeillgar a chynnes



## 🍽️ What we're looking for:

- **A caterer who can offer delicious light snacks**
- **Sandwiches, paninis, bagels, dishes, soups etc**
- **Homemade cakes, first-class tea and coffee, soft drinks**
- **Emphasis on Welsh flavour and local produce where possible**
- **Welcoming, friendly and warm service**





# 🏛️ Pam Storiel?

- Wedi'i leoli yng nghyn Blas yr Esgob Bangor – adeilad rhestredig Gradd II ac ail adeilad hynaf y ddinas – mae Storiel yn cynnwys 4 oriel gelf gyfnewidiol a 3 oriel amgueddfaol, gan ddenu dros 30,000 o ymwelwyr y flwyddyn.
- Rydym yn aelod balch o CELF, rhwydwaith yr oriel gelf gyfoes genedlaethol i Gymru, gan roi llwyfan cenedlaethol i'w harddangosfeydd.Yn ogystal â'r orielau, mae Storiel yn cynnig:
  - Siop boblogaidd gyda nwyddau o safon
  - 3 ystafell gyfarfod a llu o ddigwyddiadau a gweithgareddau
  - Mynediad at lawnt bowlio cyfagos a lle chwarae i blant – perffaith ar gyfer byrddau a bwyta yn yr awyr agored.
- Gyda chynnig caffi deniadol, rydym yn credu y gall Storiel ddenu dros 45,000 o ymwelwyr y flwyddyn.



## Why Storiel?

- Located in the former Bishop's Palace of Bangor – a Grade II listed building and the second oldest building in the city – Storiel features 4 interchangeable art galleries and 3 museum galleries, attracting over 30,000 visitors a year.
- We are a proud member of CELF, the national contemporary art gallery network for Wales, giving their exhibitions a national stage. In addition to the galleries, Storiel offers:
- Popular shop with quality goods
- 3 meeting rooms and a host of events and activities
- Access to an adjoining bowling green and children's play area – perfect for tables and al fresco dining.
- With an attractive café offering, we believe that Storiel can attract over 45,000 visitors a year.

**Cefnogaeth a Chydweithio**
Bydd Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor yn gweithio gyda chi i ddatblygu'r galw am y gwasanaethau arlwyo, gan gynnwys darparu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau Storiel.

**Lleoliad Perffaith**
Yng nghanol Bangor, ger y stryd fawr a'r Gadeirlan ac ar draws y ffordd o Ganolfan Gelfyddydau Pontio a Pharc y Coleg – mae Storiel yn rhan o ganolbwynt diwylliannol a thwristiaeth treftadaeth y ddinas, gyda cynlluniau i wella'r gofod allanol i fod yn lle braf i drigolion, myfyrwyr ac ymwelwyr. Mae'r lawnt yn cael ei llogi yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau bach a mawr sy'n dennu ymwelwyr ychwanegol i'r ardal.



**Support and Collaboration**
Cyngor Gwynedd and Bangor University will work with you to develop the catering services, including catering for Storiel's meetings and events.

**Perfect Location**
Located in the heart of Bangor, close to the high street and the Cathedral and across the road from Pontio Arts Centre and College Park – Storiel is part of the city's heritage cultural and tourism hub, with plans to enhance the outdoor space into a beautiful place for residents, students and visitors. The lawn is available to rent the lawn for small and large events which attract extra visitors.



💡 Mae hwn yn gyfle i gyfuno eich angerdd am fwyd gyda lleoliad sy'n ysbrydoli ymwelwyr bob dydd. Os ydych chi'n barod i roi eich stamp ar gaffi mewn amgueddfa ac oriel sy'n llawn bywyd, hanes a chreadigrwydd – byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!

Unedau diwydiannol, tir ac eiddo





💡 This is an opportunity to combine your passion for food with a venue that inspires everyday visitors. If you're ready to put your stamp on a café in a museum and gallery full of life, history and creativity – we'd love to hear from you!

Unedau diwydiannol, tir ac eiddo



